Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mark Isherwood
Pennaeth y Coleg
Coleg Cymunedol YMCA Cymru
Uned 6, Cleeve House
Lambourne Crescent
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GP

Awst 2014

Annwyl Mark

**Adroddiad Estyn o'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Cymunedol YMCA Cymru**

Yn dilyn yr ymweliad â'ch sefydliad ar 9 a 10 Mehefin 2014 ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Bu Rachael Bubalo AEM ac Alun Connick AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau blaenorol. Mae hyn wedi arwain at nodi meysydd pellach i'w gwella, sy'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd y llythyr.

Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau gyda Phennaeth y Coleg ac uwch reolwyr, tiwtoriaid a dysgwyr. Buont yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion arolygu blaenorol. Hefyd, buont yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy graffu ar broses arsylwi gwersi'r darparwr.

Ar ddiwedd ymweliad yr arolygwyr cyswllt, adroddodd yr arolygwyr eu canfyddiadau i Bennaeth y Coleg ac i aelodau eraill yr uwch dîm arwain.

**Canlyniad yr ymweliadau gan yr arolygwyr cyswllt**

Fe wnaeth Estyn arolygu Coleg Cymunedol YMCA Cymru yn 2011 a barnu bod ei berfformiad cyffredinol yn rhagorol, gyda rhagolygon gwella rhagorol. Ers yr arolygiad, mae hynt y gwelliant yn y sefydliad, yn ogystal â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a adawyd gan y tîm arolygu, wedi bod yn dda.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

## 1 Deilliannau a safonau

Cyfradd llwyddo gyffredinol y coleg yn 2012-2013 oedd 98.5%. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd mewn perfformiad dros gyfnod tair blynedd pan wnaeth cyfraddau llwyddo wella 1.3 phwynt canran, sydd uwchlaw cymaryddion cenedlaethol y sector yn gyson.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynd ymlaen i gymwysterau lefel uwch yn sgil cael eu symbylu gan eu profiad gyda'r darparwr i godi eu dyheadau. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r medrau a enillant yn eu gweithle.

Yn 2012-2013, 98.8% oedd lefel y cyrhaeddiad: sef, 10.8% uwchlaw cymharydd cenedlaethol 2011-2012.

Fodd bynnag, mae'r darparwr wedi nodi'r angen i wella'r cymorth ar gyfer recriwtio, dewis a medrau hanfodol ar gyfer y ddarpariaeth Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant (80.1%) a Gwaith Ieuenctid (84%) gan nad yw dysgwyr yn cyflawni cystal yn y meysydd hyn o gymharu â chyrsiau eraill.

Mae cyrhaeddiad gan ddysgwyr ar raglenni Rheoli Troseddwyr yn 100%. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yw effaith y lefel drawiadol hon o gyrhaeddiad ar leihau ymddygiad troseddol nac ar wella rhagolygon gwaith y dysgwyr hyn.

## 2 Medrau Hanfodol

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn ei drefniadau i wella medrau hanfodol dysgwyr. Yn ogystal â llunio Strategaeth Medrau Hanfodol, mae'r coleg wedi gweithio gydag ymgynghorydd annibynnol i ddatblygu cynllun gweithredu byr ond pwrpasol ar fedrau hanfodol. Yn briodol, mae hyn yn nodi'r prif feysydd i'w datblygu, sef: gwella cynllunio asesu cychwynnol; ymgorffori medrau hanfodol mewn hyfforddiant galwedigaethol; a chynyddu'r gwaith o gyfeirio dysgwyr at asiantaethau allanol. Mae wyth tiwtor wedi cwblhau cymwysterau lefel 2 i'w helpu i gefnogi dysgwyr â'u llythrennedd.

Hefyd, mae'r coleg wedi cydnabod y bylchau yn ei wybodaeth asesu gwaelodlin. Yn ddiweddar, mae wedi gwneud trefniadau i gyflwyno profion cychwynnol a diagnostig i'r holl ddysgwyr sy'n astudio am fwy na phum awr yr wythnos. Mae'r rhain yn bennaf yn ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau mewn Gwaith Ieuenctid neu Addysg a Hyfforddiant.

Yn achos dysgwyr sy'n astudio llai na phum awr yr wythnos, mae'r coleg yn dibynnu ar asiantaethau partner i gyflawni'r broses asesu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn y coleg yn derbyn canlyniadau'r rhain ac, felly, nid ydynt yn gallu sicrhau ansawdd y trefniadau cymorth i'r dysgwyr hyn yn ddigonol.

Mae pwyllgor y coleg ar y cwricwlwm yn monitro'r mentrau hyn yn effeithiol; fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i ddweud pa effaith gaiff y rhain ar godi lefelau

medrau.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae’r coleg wedi drafftio polisi arsylwi addysgu a dysgu. Mae rheolwyr a chydlynwyr yn arsylwi’r holl diwtoriaid o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae’r coleg wedi datblygu templed arsylwi addysgu defnyddiol i gofnodi’r arfarniadau hyn. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ddigon manwl i ddadansoddi’r agweddau amrywiol sy’n llunio addysgu da. Mae’r coleg yn defnyddio canlyniadau arsylwadau i lywio’i broses flynyddol o adolygu tiwtoriaid. Yn ystod 2013-2014, barnwyd bod y rhan fwyaf o arsylwadau addysgu a dysgu yn dda neu’n rhagorol. Mae gan reolwyr system dda o gefnogi tiwtoriaid y mae angen i’w haddysgu wella.

Mae’r rheolwr ansawdd yn dadansoddi canlyniadau’r arsylwadau ac yn eu defnyddio’n dda i lywio’r cynllun hyfforddi blynyddol. Mae hyfforddiant diweddar wedi canolbwyntio ar safoni cynllun marcio’r coleg. Mae athrawon yn cael mynediad da at gyfleoedd perthnasol eraill ar gyfer datblygiad proffesiynol a, hefyd, derbyniant daleb flynyddol i brynu hyfforddiant o’u dewis.

Mae’r rheolwr ansawdd yn monitro presenoldeb yr holl diwtoriaid sesiynol mewn hyfforddiant yn effeithiol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y trefniadau.

## 4 Y cwricwlwm

Mae gan y coleg ffocws penodol ar gyflwyno dysgu i oedolion sy’n troseddu ac ar wella medrau staff y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Mae’r ffocws hwn yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer y ffordd y mae’r coleg yn trefnu ei ddarpariaeth ac mae hefyd yn llywio llawer o’i waith da mewn partneriaeth.

Mae’r coleg yn ymgynghori’n dda â phartneriaid unigol i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth i fodloni anghenion sefydledig ac anghenion sy’n dod i’r amlwg. Hefyd, mae’n ymateb yn dda i’r angen am ddatblygu rhaglenni a chymwysterau newydd. O ganlyniad, mae wedi ymestyn ystod y cyfleoedd achredu i ddysgwyr. Mae cyfleoedd dilyniant da i staff y gwasanaeth ieuenctid ddatblygu medrau perthnasol ac ennill achrediad ar lefel uwch.

Mae cyfran uchel o ddysgwyr yn dod o grwpiau ‘anodd eu cyrraedd’ sydd wedi ymddieithrio o ddysgu. Mae’r coleg wedi gweithio’n effeithiol gyda’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddatblygu ystod eang o raglenni sy’n galluogi oedolion â dedfrydau cymunedol ennill achrediadau defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw’n glir pa mor dda mae’r dysgwyr hyn yn gallu defnyddio’r medrau y maent yn ennill achrediad amdanynt.

Mae’r coleg yn recriwtio cyfran uchel o ddysgwyr o ardaloedd o ddifreintedd. Mae wedi dadansoddi dosbarthiad y dysgwyr hyn ar draws y ddarpariaeth ac maent wedi’u dosbarthu’n gyfartal ar draws ystod y cyrsiau a ddarperir.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r coleg wedi llunio cynllun strategol tair blynedd sy'n cydnabod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn briodol.  Mae'n cynnwys targedau perfformio perthnasol sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, fel y rhai ar gyfer recriwtio cyfran o ddysgwyr o ardaloedd sy'n dioddef amddifadedd addysgol.  Mae'n adeiladu'n llwyddiannus ar y nodweddion rhagorol a nodwyd yn adroddiad arolygu blaenorol y coleg.  Roedd staff, llywodraethwyr a dysgwyr wedi cymryd rhan ddefnyddiol mewn datblygu'r cynllun trwy fod yn bresennol mewn diwrnodau cwrdd i ffwrdd.  Mae'r dull hwn wedi helpu cyfleu ac ymgorffori'r dull strategol newydd yn effeithiol.

Caiff nodau strategol eu cysylltu'n effeithiol â chynllun arfarnu perfformiad staff yn flynyddol ac mae hyn yn helpu staff i ddeall eu rôl mewn gwella perfformiad.  Mae'r nodau strategol wedi'u cynnwys hefyd yng Nghytundebau Lefel Gwasanaeth partneriaid ac maent yn galluogi'r coleg i gyflwyno'i ddisgwyliadau ar gyfer cydweithio yn glir.

Mae gan uwch swyddogion ddealltwriaeth dda o ba mor dda mae'r coleg yn perfformio trwy adroddiadau a dadansoddiadau data rheolaidd.  Caiff deilliannau eu monitro yn erbyn y cynllun gweithredol yng nghyfarfodydd misol yr uwch reolwyr.

Mae'r llywodraethwyr yn cynrychioli'n fras y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.  Mae eu presenoldeb mewn cyfarfodydd bwrdd yn dda.  Rhoddant lefelau da o her a chymorth.  Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth prawf yn cael ei gynrychioli'n ddigon da.  Mae hyn yn ddiffyg o ystyried bod bron hanner darpariaeth y coleg yn ymwneud â bodloni anghenion oedolion sy'n troseddu.

Mae'r coleg yn cynnal ei bartneriaethau'n dda, gan gysylltu gyda mwy na 50 o asiantaethau lleol a chenedlaethol yn y sectorau statudol a gwirfoddol fel ei gilydd.  Mae'r ystod eang hwn o waith partneriaeth yn galluogi'r Coleg i ymateb yn dda i anghenion ystod eang o ddysgwyr.

Mae'r coleg wedi nodi'r risgiau sydd ynghlwm wrth gyflwyno dysgu troseddwyr trwy gontract allanol ar gyfer y gwasanaeth prawf.  Mae uwch reolwyr wedi nodi cyfleoedd newydd, gan gynnwys meysydd fel chwarae a datblygiad cymunedol a allai lenwi'r bwlch pe na bai contract y gwasanaeth prawf yn cael ei adnewyddu.

Mae'r Coleg yn ymateb yn rhagweithiol i 'Agenda Trawsnewid' Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru.  Mae amserlen glir ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ac mae rheolwyr wedi cyfleu'n glir unrhyw ddatblygiadau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae systemau da ar waith gan y coleg i wella ansawdd ei ddarpariaeth.  Mae'n llunio adroddiad hunanasesu arfarnol sy'n nodi meysydd priodol i'w gwella.  Mae'r rhain yn

llywio cynllun gwella ansawdd cynhwysfawr sy'n blaenoriaethu camau gweithredu ac yn datgan yn glir pwy sy'n gyfrifol amdanynt. Mae uwch staff yn monitro cynnydd tuag at amcanion y cynllun datblygu ansawdd ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i lywodraethwyr i sicrhau bod gwybodaeth dda gan y bwrdd.

Mae gan y coleg system rheoli gwybodaeth dda sy'n helpu i gofnodi ac olrhain cynnydd y darparwr tuag at amcanion yn glir. Mae systemau da ar waith ar gyfer ystyried barn dysgwyr ac mae'r coleg yn defnyddio'r rhain yn effeithiol wrth adolygu ansawdd y ddarpariaeth.

Mae trefniadau da ar waith gan y coleg i arsylwi perfformiad staff ac mae'n ymestyn y rhain i ymweliadau â darparwyr trydydd parti. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi llwyddo i nodi'r holl broblemau yn gysylltiedig ag ansawdd y dysgu troseddwyr yr oedd Estyn wedi rhoi gwybod amdanynt yn flaenorol i Wasanaeth Prawf EM.

Mae'r coleg yn adolygu ei bolisïau'n flynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r polisi diogelu wedi'i ddiweddaru yn llwyr adlewyrchu'r diwygiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â diogelu fel sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Diogelu Rhyddidau 2012.

**Crynodeb o'r cynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad 2011**

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

**A1 Datblygu gwaith i wella cyfleoedd medrau sylfaenol a hanfodol i bob dysgwr**

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cymryd rhan mewn dysgu am lai na phum awr yr wythnos ac nid yw'r coleg wedi ymgymryd ag asesiad cychwynnol o'u medrau sylfaenol na hanfodol. Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae wedi datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gyda chwmni i ddarparu asesiad cychwynnol, diagnosis o fedrau a chymorth datblygu medrau sylfaenol i bob dysgwr. Mae'n rhy fuan eto i'r coleg arfarnu effaith yr ymyrraeth hon.

**A2 Helpu tiwtoriaid i nodi a datblygu ffyrdd o ymgorffori'r dimensiwn Cymreig mewn mwy o weithgareddau wrth iddynt gyflwyno dysgu**

Mae'r coleg wedi penodi Hyrwyddwr y Gymraeg i gryfhau ei allu i gynorthwyo tiwtoriaid i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn sesiynau. Mae'n darparu gwerslyfrau yn y Gymraeg ac mae wedi gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru i ddatblygu deunyddiau asesu Cymraeg. Mae ychydig athrawon yn cyflwyno elfennau o'r Gymraeg yn eu gwersi ac mae'r coleg yn annog ei holl staff i ddatblygu eu medrau Cymraeg eu hunain.

**A3 Ehangu ymgysylltiad ar lefel strategol i hybu'r arfer dda yn y coleg**

Mae'r coleg yn parhau i ddatblygu ei gysylltiadau â'r Gwasanaeth Prawf

Cenedlaethol tra'n disgwyl ad-drefnu gwasanaethau i droseddwyr. Mae wedi dechrau trafodaethau gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr i archwilio partneriaeth mewn ymateb i 'Agenda Trawsnewid' Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae Pennaeth y Coleg yn ymwneud ag amrywiaeth ehangach o Fyrddau Partneriaid.

## 7 Llais y Dysgwr

At ei gilydd, er 2013, mae'r coleg wedi gwella'i berfformiad yn arolwg Llais y Dysgwr, Cymru. Fe wnaeth 133 o ddysgwyr y coleg gymryd rhan yn yr arolwg yn 2014. Mae'r canlyniadau'n gadarnhaol yn bennaf, gyda 96% o'r farn bod y darparwr yn dda neu'n dda iawn – pum pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Dywedodd 84 y cant fod y cwrs yn well na'r disgwyl neu fel yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn naw pwynt canran islaw cyfartaledd y sector.

Fodd bynnag, roedd rhai meysydd i'w gwella, gyda dim ond 62% yn dweud bod yr addysgu a'r hyfforddi yn dda iawn, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 72% ar gyfer y sector. Dywedodd dysgwyr fod nifer o agweddau ar addysgu a hyfforddi islaw cyfartaledd y sector, gan gynnwys cynnal eich diddordeb ac esbonio gwaith. Mae'r coleg wedi talu sylw da i'r adborth hwn ac mae'n ymateb yn dda i'r canfyddiadau fel rhan o'i strategaeth i wella addysgu a dysgu.

Mae'r coleg yn ategu adborth Llais y Dysgwr Cymru trwy gynnal grwpiau ffocws rheolaidd ac mae'n dadansoddi ac yn rhannu canlyniadau'r rhain gyda phartneriaid i'w helpu i wella darpariaeth. Mae'n rhy gynnar eto i arfarnu effaith yr holl weithgareddau hyn. Fodd bynnag, mae'r coleg yn cydnabod nad yw'n gwneud defnydd digon da o adborth llais y dysgwr i wella'r gwaith a gyflwynir ar ran y gwasanaeth prawf.

## 8 Iaith a diwylliant Cymru

Mae datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn parhau'n flaenoriaeth strategol i'r coleg. Mae ganddo Gynllun Iaith Cymraeg gwirfoddol gyda dull adrodd cadarn ac mae'n cynnwys y Gymraeg fel rhan o'i asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Mae hynny'n arfer dda ac, yn ddiweddar, mae'r coleg wedi derbyn adolygiad cadarnhaol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae holl feysydd y cwricwlwm ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r coleg wedi gosod targed uchelgeisiol iddo'i hun, sef cynnig cyfle i 100% o siaradwyr Cymraeg ddysgu yn y Gymraeg.

Mae gan y coleg hyrwyddwr dwyieithrwydd, sy'n cael ei rannu gyda dau goleg arall ac sy'n codi ymwybyddiaeth staff yn llwyddiannus. Mae tua hanner yr aelodau staff yn astudio gyda'i gilydd ar gwrs Cymraeg i ddechreuwyr. Mae'r coleg yn gwella cynnwys ei wefan ac mae hefyd yn gweithio'n galed i wella ansawdd cyfieithiadau adnoddau ar rai cyrsiau. Datblygiad cyffrous a diweddar yw drafftio uned wedi'i

hachredu gan Agored ar y Gymraeg a diwylliant Cymru, sydd wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n dod i weithio yng Nghymru.

Mae'r coleg yn talu sylw da i ymgorffori cyd-destun Cymru yn ei gyrsiau hyfforddiant ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.  Er enghraifft, mae'n cynnwys agweddau perthnasol ar bolisi ac arfer yng Nghymru yn ei gyrsiau Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTLLS) a gwaith ieuenctid.  Bob blwyddyn, mae'r coleg yn cyflwyno nifer o gyrsiau Gweithwyr Ieuenctid a PTLLS yn llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhellion**

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol, dylai'r sefydliad wneud y canlynol:

A1 Arfarnu effaith ymyriadau a chymorth i wella medrau hanfodol a sylfaenol dysgwyr

A2 Gwella asesu addysgu a dysgu ym mhob lleoliad

A3 Adolygu a diweddaru'r polisi diogelu i roi ystyriaeth lawn i Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

A4 Gwella cynrychiolaeth y Gwasanaeth Prawf ar lefel y Bwrdd

**Y camau nesaf**

Bydd Rachael Bubalo AEM ac Alun Connick AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt gyda'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol